**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 5.6.25**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

(Canslwyd ymweliad Bryn Hall, Biosffêr Dyfi i drafod prosiect gwenoliaid duon 'Sgrean a Sgrechian'.)

**19:817: Presennol:** Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Gareth Wyn Jones, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gareth Owen, Bedwyr Fychan, Deryck Lewis, Sandra Evans (Clerc)

**19:818: Ymddiheuriadau**: Huw Williams, Dafydd Evans, William Owen, Glyn Jones, Aeron Pughe

**19:819: Materion Personol:** Dim

**19:820: Datganiadau o ddiddordeb**: Bedwyr Fychan – Gwaith trydanol diffib.

**19:821: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Ebrill 2025** Cywiriad i enw - Gwilym Pugh nid Gwilym Hughes. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.

**19:822: Materion yn codi o'r cofnodion.** Nodwyd bod Mrs. Lil Humphreys wedi diolch i'r Cyngor am weithredu'n brydlon ac yn benodol i Gareth Owen am drwsio main Top y Grofft.

Mae dryswch wedi codi wrth adrodd materion ffyrdd a phriffyrdd. Cysylltir ag Awi Williams i ymddiheuro am negeseuon amwys yn dilyn camddealltwriaeth. Torri a gwair ochr y ffordd yn hytrach na thocio perthi oedd. Yn y dyfodol defnyddir what 3 Words, cyfeirnod grid a marc ar fap i nodi lleoliadau er cywirdeb. Mae angen newid 'Nid yw'r sietyn rhwng Glantwymyn a Chemaes yn cael ei thorri deirgwaith y flwyddyn yn ôl yr arfer' i 'nid yw'r gwair ochr ffordd yn cael ei dorri mor amled ag yr oedd yn y gorffennol gan mai un ystod y mae'r Cyngor yn ei thorri erbyn hyn yn hytrach na thair.'

**19:823: Cynllunio** -

**19:824: Materion ariannol ac eitemau i'w talu ·**

- Cyflog y Clerc Mis Ebrill (Mis 1) £283.20
- Costau'r clerc – blodau (LH) - £30.00
- Praesept £3685.00 wedi'i dderbyn
- Diweddariad gan Swyddfa'r Awdit am infois ARINV/012976 Ffioedd Archwilio 2022/23- £879 - Nid oes ateb hyd yn hyn.
- Ychwanegir Bedwyr Fychan i'r mandate banc
- Gloversure (29254) £21.60 am adrodd gwall ar eu system. Penderfynwyd talu hwn yn dilyn esboniad gan Gloversure mai'r Cyngor piau'r wefan a'r Cyngor felly sy'n gyfrifol am gostau'n deillio o unrhyw ddiffygion. Gofynnir eto am gopi o'r cytundeb.
  Cytunwyd ar yr rhain yn unfrydol.

**19:825: Adolygu cyflog y Clerc** Penderfynwyd cynyddu cyflog y Clerc i £13.75 yr awr gan gyfeirio at feincnodau Un llais Cymru a'r Gwasanaethau Cyhoeddus.

**19:827: Cyfrifon blynyddol** Penderfynwyd treialu system newydd am y tro ac adolygu'r sefyllfa yn y dyfodol. Diolch o galon i Bedwyr Fychan am gael hyd i system newydd.

**19:828: Gwefan y Cyngor:** Ystyrir cael gwefan newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir penderfyniad am ddarparwr yn y cyfarfod nesaf.

**19:829: Gohebiaeth** - Capel Cemaes- cafwyd neges gan Mr. Edward Breeze i ddweud y bydd yn anfon mwy o fanylion maes o law am y fynwent.

- Llythyr i ddiolch gan Mrs. Lil Humphreys am y noson.

**19:830: Adroddiadau'r Cynghorwyr – Bedwyr Fychan** - Cafwyd cyfarfod gwerthuso llesol iawn rhwng, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'r Clerc. Ymysg y pwyntiau a godwyd oedd lles posib defnyddio What3 Words wrth fanylu ar leoliadau â phroblemau i'w hadrodd defnyddio system newydd ar gyfer cyllido misol a fydd hefyd yn cefnogi gweithgarwch hanfodol arall y Cyngor e.e. cyllido a chyflwyno cyfrifon blynyddol. Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau cyflog y Clerc yn fisol. Diolchwyd i Iwan Pugh Jones a Bedwyr am gynnal y cyfarfod.

**Gwenfair Rhys Davies – Fforwm Cleifion** - Oherwydd dyletswyddau teuluol ni fydd yn bosib o hyn allan iddi gynrychioli'r Cyngor yn y Fforwm Cleifion.

**19:831: Diffib Darowen** - Penderfynwyd gofyn i Osian Lewis wneud y gwaith pellach yn ymwneud â diffibrilwyr gan fod angen tynnu cabinet diffib Darowen ar gyfer ei leoliad newydd.

**19:832: Ffyrdd a Phontydd**

- Ffordd rhwng Canolfan y Dechnoleg Amgen a Glandulas – coed yn hongian dros y ffordd – angen ei adrodd eto.
- Cemaes - Cysylltir â Chris Lloyd, Cyngor Sir Powys i ofyn am ddiweddariad am ffordd Rhydygwial ac Awi Williams i holi am unrhyw ddatblygiadau am barcio yng Nghemaes ar hyd yr A470.
- Cyffyrdd Top y Grofft, troad i Abercegir ac Aberangell– problemau i ddefnyddwyr ffyrdd achos thyfiant ochr y ffordd yn amharu ar welededd. Cysylltir ag Awi Williams
- Caead dros stop tap iron works ddim yn cau ac yn berygl i'r cyhoedd wrth 10 Glantwymyn SY20 8LX. Cysylltir â Hafren Dyfrdwr.

**19:833: Unrhyw fater arall**

**19:834:1: Diolch i Mr.Gwilym Fychan** Anfonir cerdyn i ddiolch iddo am gyfansoddi englyn i Mrs. Lil Humphreys.

**19:834:2: Asedau Cyngor Sir Powys -**Mynegwyd pryderon am fod Cyngor Sir Powys yn gwerthu ffermydd o'u heiddo yn yr ardal. Cysylltir â'r Cyngor i'w hannog i beidio â gwerthu asedau mor bwysig i bobl sydd ar fin cychwyn gyrfa ym maes amaeth ac eisiau aros yn eu cynefin. Gofynnir am strategaeth Cyngor Sir Powys a phwysleisio mai doeth fyddai ystyried effeithiau tymor hir ar iaith, diwylliant a chymunedau. Cysylltir hefyd â Chyngor Cymunedol Ceri i ddangos gwerthfawrogiad yn dilyn cyfathrebu ganddynt ar y mater.

**19:834:3: Cemaes** - Cysylltir â Chris Lloyd, Cyngor Sir Powys i ofyn am ddiweddariad am ffordd Rhydygwial ac Awi Williams i holi am unrhyw ddatblygiadau am barcio yng Nghemaes ar hyd yr A470.

**19:834:4:** Mae pryderon yn parhau am gerbydau'n parcio wrth ochr y ffordd yng Nglantwymyn yn achosi peryglon i ddefnyddwyr ffyrdd gan gynnwys disgyblion ysgol sy'n gorfod croesi ffordd brysur. Cysylltir â Chyngor Sir Powys a NMWTRA.

**19:835:5: Fan bost -**Cysylltir â Maureen Fairclogh Dyfi i ofyn a fyddai'n bosib i fan bost barcio yno. Cysylltir â'r Swyddfa Bost i ofyn am barhau'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00.

<u>Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 5.6.25</u>

- Biniau halen – Penderfynwyd mai biniau 400 litr fyddai orau ar sail y rhai a ddefnyddir gan Gyngor Sir Powys. Cynigiwyd hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.
- Cafwyd llythyr i ddiolch am y cyfraniad at dorri gwair mynwent gan Mr. Edward Breese ar ran Capel Cemaes.
- Cytundeb edf. Cysylltir i ofyn am gywiro'r cytundeb i ddangos mai ddwywaith y flwyddyn mae'r taliadau gydag indecs gyswllt.